

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
Answers to Questions not reached in Plenary
08/04/2008

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Community Projects

Q11 Lynne Neagle: Will the First Minister make a statement on the support available for community projects in south-east Wales? OAQ(3)0842(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): Funding is available from a number of sources to support community projects, including Communities First funding and the highly successful community facilities and activities programme. The third sector is now also being encouraged to access funding from within the new European funding programmes.

Implementing Report Recommendations

Q12 Rosemary Butler: What progress has the Welsh Assembly Government made towards implementing report recommendations made by committees in the second Assembly? OAQ(3)0836(FM)

The First Minister: A great many reports containing recommendations were produced by various committees during the second Assembly, and providing a full update on each would be a major exercise. I shall be glad to write with information relating to any particular report that the Member has in mind.

Improving the Treatment of Older People

Q13 Alun Davies: Will the First Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to improve the treatment of older people in our public services in Wales? OAQ(3)0866(FM)

Prosiectau Cymunedol

C11 Lynne Neagle: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer prosiectau cymunedol yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(3)0842(FM)

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Mae cyllid ar gael o nifer o ffynonellau er mwyn cefnogi prosiectau cymunedol, gan gynnwys arian Cymunedau yn Gyntaf a'r rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol, sy'n llwyddiannus iawn. Erbyn hyn, mae'r trydydd sector hefyd yn cael ei annog i wneud cais am arian o'r rhaglenni cyllido Ewropeaidd newydd.

Gweithredu Argymhellion Adroddiadau

C12 Rosemary Butler: Pa gynnydd mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wneud at weithredu argymhellion adroddiadau a wnaethpwyd gan bwyllgorau yn yr ail Gynulliad? OAQ(3)0836(FM)

Y Prif Weinidog: Cafodd nifer fawr o adroddiadau a oedd yn gwneud argymhellion eu llunio gan amryfal bwyllgorau yn ystod yr ail Gynulliad, a byddai rhoi gwybodaeth lawn a diweddar am bob un ohonynt yn gryn dipyn o waith. Byddwn yn falch o ysgrifennu at yr Aelod yn rhoi gwybodaeth am unrhyw adroddiad penodol sydd ganddi mewn golwg.

Gwella'r ffordd y caiff Pobl Hŷn eu trin

C13 Alun Davies: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i wella'r ffordd y caiff pobl hŷn eu trin yn ein gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru?

OAQ(3)0866(FM)

The First Minister: We are taking action to ensure that there are high-performing, citizen-focused public services that work well together throughout Wales and for all of our citizens. For older people we want services to follow the principles of our strategy for older people in Wales, which was recently renewed and updated.

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn gweithredu er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus uchel eu perfformiad, sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ac sy'n gweithio'n dda gyda'i gilydd ar gael ledled Cymru ar gyfer ein holl ddinasyddion. Yn achos pobl hŷn, yr ydym am i'r gwasanaethau ar eu cyfer ddilyn yr egwyddorion yn ein strategaeth ar gyfer pobl hŷn, a gafodd ei hadnewyddu a'i diweddarau yn ddiweddar.

Increased Landfill Tax

Treth Tirlenwi Uwch

Q14 William Graham: Will the First Minister outline the impact of the increased landfill tax upon local authorities in Wales?
OAQ(3)0835(FM)

C14 William Graham: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu effaith y dreth tirlenwi uwch ar awdurdodau lleol yng Nghymru?
OAQ(3)0835(FM)

The First Minister: Landfill tax is a UK tax on public or private sector waste operators that dispose of waste through landfill. The impact anticipated on local authorities and businesses will be to encourage the diversion of waste from landfill to refuse and recycling as quickly as possible.

Y Prif Weinidog: Treth gan y DU yw'r dreth tirlenwi ar weithredwyr gwastraff yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat sy'n cael gwared ar wastraff mewn safleoedd tirlenwi. Yr wyf yn gobeithio y bydd yr effaith ar awdurdodau lleol yng Nghymru yr un peth â'r effaith ar fusnesau, sef eu hannog i fynd ati cyn gynted â phosibl i ddefnyddio dulliau eraill o gael gwared ar wastraff yn lle safleoedd tirlenwi.

Internet Technology

Technoleg Rhyngrwyd

Q15 Mick Bates: Will the First Minister make a statement on plans to encourage businesses to use internet technology?
OAQ(3)0858(M)

C15 Mick Bates: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau i annog busnesau i ddefnyddio technoleg rhyngrwyd?
OAQ(3)0858(M)

The First Minister: Funds and investment totalling £135 million from the European structural programming round for 2007-13 has been set aside to ensure that Welsh businesses embrace the use of internet technologies. Funding will create a series of strategic programmes aimed at the entire Welsh business community as well as the wider community, covering all regions.

Y Prif Weinidog: Mae cyllid a buddsoddiad sy'n werth cyfanswm o £135 miliwn wedi'i neilltuo o gylch y rhaglenni strwythurol Ewropeaidd ar gyfer 2007-13 er mwyn sicrhau bod busnesau Cymru yn mynd ati i ddefnyddio technolegau'r rhyngrwyd. Bydd y cyllid yn fodd i greu, ym mhob rhanbarth, gyfres o raglenni strategol a fydd wedi'u hanelu at y gymuned fusnes yng Nghymru yn ei chyfanrwydd, yn ogystal ag at y gymuned ehangach.